Rhif: **WG17095**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cymru Ddi-dipio

Dyddiad cyhoeddi: **26 Tachwedd 2012**
Ymatebion erbyn: **28 Chwefror 2013**

## Trosolwg

Tipio yw'r term cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei adael ar dir yn anghyfreithlon. Mae tipio'n broblem weledol iawn sy'n cael effaith negyddol ar gymunedau lleol a'u hamgylchedd lleol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Yn 2007 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tipio Anghyfreithlon gan ariannu menter 5 mlynedd dan yr enw Taclo Tipio Cymru. Prif nodau'r fenter yw mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a gostwng nifer yr achosion.

Mae Taclo Tipio Cymru wedi'i gydlynu gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'n gweithio'n rheolaidd gyda nifer o sefydliadau â diddordeb i ddatblygu a chynllunio camau i geisio gwneud cymaint ag sy'n bosibl i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Ceir manylion am sawl gwahanol ffordd o weithio yn nogfen partneriaeth Taclo Tipio Cymru, "Ymfalchïo yn ein Cymunedau". Ymysg y sefydliadau sy'n rhan o Taclo Tipio Cymru mae Cadwch Gymru'n Daclus, y 22 awdurdod lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, y Comisiwn Coedwigaeth a Network Rail.

Mae Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru a dogfen partneriaeth Taclo Tipio Cymru, "Ymfalchïo yn ein Cymunedau" yn dod i ben yn 2012.

Ein gweledigaeth yw peidio cael unrhyw enghreifftiau o gwbl o dipio anghyfreithlon yng Nghymru, ac mae gennym gyfle ardderchog nawr i gynhyrchu cytundeb partneriaeth newydd ar lefel uchel i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Mae hyn yng nghyd-destun polisïau ehangach Llywodraeth Cymru, fel ein hymrwymiad i weithio mewn ffordd integredig wrth geisio gwella amgylchedd ardaloedd dinesig ac mewn gwaith polisi gwastraff ehangach. Rydym hefyd yn tynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Fel rhan o'r ddogfen hon mae Llywodraeth Cymru a Taclo Tipio Cymru wedi cynhyrchu'r canlyniadau allweddol canlynol.

1. Pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd.
2. Dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas.
3. Haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.
4. Unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

Rydym am glywed eich barn a'ch sylwadau ynghylch ein dogfen ymgynghori "Cymru Ddi-dipio". Bydd eich adborth yn cael ei ddefnyddio wrth lunio'r cam nesaf i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu'r camau angenrheidiol i sicrhau llwyddiant y canlyniadau allweddol ac i weithio tuag at ein gweledigaeth o beidio cael unrhyw enghreifftiau o dipio anghyfreithlon yng Nghymru.

Bydd y cam nesaf yn cynnwys trafodaethau pellach â phartneriaid a chymunedau allweddol er mwyn pennu camau angenrheidiol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

## Sut i Ymateb

Ymatebwch drwy

- e-bost at LEQ@wales.gsi.gov.uk
- defnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan
- anfon drwy'r post at:
  Cangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
  Llywodraeth Cymru
  Parc Cathays
  Caerdydd CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cyswllt

Cangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Is-adran Pobl a'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1589

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. **Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom.** Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2012

## Beth yw'r prif faterion?

Mae tipio anghyfreithlon yn effeithio arnom ni i gyd. Mae'n drosedd ddifrifol sy'n weladwy, yn amharu ar ein cymdogaethau lleol ac yn medru effeithio ar ansawdd bywyd yn y gymuned leol. Mae hefyd yn peryglu pobl a bywyd gwyllt trwy ledaenu afiechydon, llygredd, halogi pridd, a gwneud ardaloedd yn fwy tebygol o ddioddef problemau draenio a llifogydd.

Yn 2011-12 deliodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r 22 awdurdod lleol â nifer o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon, gan wario £2.1 miliwn ar gostau glanhau yn unig. Trethdalwyr sy'n ysgwyddo'r gost.

Er bod llai o enghreifftiau o dipio anghyfreithlon bellach, mae'n parhau i ddigwydd gydag amrywiol fathau o wastraff. Y mwyaf cyffredin o hyd yw gwastraff y cartref, gwastraff adeiladu a dymchwel a gwastraff gwyrdd.

Mae nifer o faterion yn cael sylw yn ein dogfen ymgynghori 'Cymru Ddi-dipio' gan gynnwys:

- **Gwaith partneriaeth -** ystyried lefel ymrwymiad strategol sefydliadau allweddol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, sy'n amrywio ledled Cymru. Mae'n bwysig i gymunedau ac asiantaethau gorfodi gydweithio gydag awdurdodau i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

- **Deall graddfa a natur y broblem** – Mae Flycapture wedi'i gyfyngu i gofnodi digwyddiadau ar dir cyhoeddus. Mae angen i ni ddeall graddfa'r broblem ar gyfer tirfeddianwyr preifat a sefydliadau fel Comisiwn Coedwigaeth Cymru, y Parciau Cenedlaethol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

- **Gwell addysg** - mae nifer o gartrefi a busnesau heb fod yn ymwybodol am eu dyletswydd gofal a'u cyfrifoldeb i waredu gwastraff mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon. Mewn arolwg diweddar ym Mharc Ranbarthol y Cymoedd roedd 42% yn dweud nad oeddent yn gwybod bod cyfrifoldeb arnynt i gadarnhau ble'r oedd eu gwastraff yn mynd na bod angen i bob cludydd gwastraff gael ei gofrestru.

- **Darpariaeth briodol ar gyfer gwastraff -** mae'r cyhoedd yn nodi'n aml bod diffyg darpariaeth gwastraff digonol a fforddiadwy yn rheswm dros dipio anghyfreithlon.

- **Gorfodaeth ddeallus**– adeiladu gallu gorfodi cyson ledled Cymru er mwyn cael cysondeb ymysg cyrff gorfodi o ran dehongliad deddfwriaeth a chamau gorfodi.

## Ble'r ydym ni nawr?

Mae Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru a dogfen partneriaeth Taclo Tipio Cymru yn dod i ben yn 2012. Er i ni weld

llwyddiannau sylweddol yn ystod y rhaglen 5 mlynedd o addysg, ennyn diddordeb, gwybodaeth ac atal mae angen gwneud mwy o hyd i sicrhau Cymru Ddi-dipio.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw mentrau tipio anghyfreithlon unigol yn gweithio a'i bod yn allweddol adeiladu ar lwyddiannau a dysgu gwersi o'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni. Mae ein dogfen ‘Cymru Ddi-dipio’ hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu Taclo Tipio Cymru i fod yn bartneriaeth gydweithredol, strategol sy'n rhannu gweledigaeth, canlyniadau a rheolaeth, gan gyflawni mwy fyth.  Mae 'Cymru Ddi-dipio‘ yn gam cyntaf tuag at gyflawni hyn.

Rydym yn cydnabod bod gwledydd eraill eisoes yn gweld Cymru fel gwlad arloesol yn ei hagwedd at fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Mae Cymru Ddi-dipio' a gwaith pellach yn rhoi cyfle i Gymru fod yn flaengar yn y maes, a bod yn esiampl.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rhowch eich sylwadau yma

**1. Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth a osodwyd yng Nghyflwyniad y papur sefyllfa?**

**2. A oes gennych unrhyw astudiaethau achos neu arfer da yr hoffech eu rhannu?**

**3. Ydych chi'n cytuno bod tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru?  Oes gennych unrhyw enghreifftiau pellach o'i effaith ar wasanaethau cyhoeddus a chymunedau ehangach?**

**4. Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y gwersi a ddysgwyd yn adran 10 y papur sefyllfa, neu oes gennych unrhyw wersi ychwanegol a ddysgwyd ac yr hoffech eu rhannu?**

**5. Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y canlyniadau a sut y gellid eu cyflawni?**

**6. Hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu camau angenrheidiol i sicrhau llwyddiant y canlyniadau?**

Mae’n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai’n well gennych i’ch ymateb gael ei gadw’n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐

# Cymru Ddi-dipio

## 1. Cyflwyniad

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau i gymunedau fod yn llefydd diogel, gwydn, cynaliadwy a deniadol i bobl fyw, gweithio a chwarae ynddynt, ac yn llefydd lle mae pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau a mwynhau iechyd da. Mae arnom eisiau i Gymru fod yn wlad deg, gyfiawn a dwyieithog, lle caiff dinasyddion o bob oedran a chefndir eu grymuso i benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain, llywio eu cymunedau a chyflawni eu potensial yn llawn. Yn rhy aml bydd cymunedau, yn enwedig cymunedau tlotach, yn teimlo na allant gymryd rhan mewn penderfyniadau na dylanwadu ar y sialensiau amgylcheddol sy'n eu hwynebu.

Ar y lefel leol y bydd pobl yn teimlo synnwyr o le a balchder yn eu cymuned ac ar y lefel honno ceir llawer o gyfleoedd i gyflawni gwelliannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae Llywodraeth Cymru eisiau i holl drigolion Cymru, ond yn enwedig y rheini yn yr amgylcheddau mwyaf diraddiedig, weithredu eu hunain, cael eu grymuso i fod â balchder yn eu cymdogaeth, helpu i weithio at wneud Cymru yn wlad lanach sy'n gwastraffu llai ac yn wlad sy'n fwy diogel ac iach.

Mae mynd i'r afael â phroblem tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn gam pwysig i gyflawni'r nod hwn, ac mae'n golygu bod angen i bob sefydliad partner a chymuned ledled Cymru weithredu gyda'i gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod angen cydweithio o ddifrif i ddelio â'r rhesymau dros dipio anghyfreithlon. A ninnau â dim ond 22 awdurdod lleol yng Nghymru a'r awydd i gynnwys a grymuso cymunedau'n well, mae gennym gyfle i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael yn effeithiol â thipio anghyfreithlon. Mae gwaith partneriaeth eisoes wedi dechrau yng Nghymru drwy'r gwaith sydd wedi cael ei wneud fel rhan o'r Strategaeth Tipio Anghyfreithlon flaenorol (2007 i fis Mawrth 2012), ynghyd â gwaith ardderchog *Taclo Tipio Cymru* a'i sefydliadau partner. Mae arnom nawr eisiau adeiladu ar lwyddiant y gwaith partneriaeth hwn.

Daw cyfnod strategaeth tipio anghyfreithlon Llywodraeth Cymru a dogfen bartneriaeth *Taclo Tipio Cymru* "Ymfalchïo yn ein Cymunedau" i ben yn 2012; mae hyn yn rhoi cyfle gwych i ni weithio gyda'n gilydd i gynhyrchu cytundeb partneriaeth lefel uchel newydd a dylunio a chyflenwi camau gweithredu ar y cyd ar gyfer y dyfodol.

Nod y gwaith hwn fydd sicrhau ein gweledigaeth sef:

***'Dyfodol i Gymru heb y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Dyfodol lle byddwn i gyd yn cydweithio i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ein gwastraff ac ymfalchïo yn ein cymunedau,'***

Bydd y papur hwn yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau pellach â chymunedau ac â sefydliadau allweddol. Mae'n rhoi ein hamcanion lefel uchel ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, a fydd yn cael eu rhannu â *Taclo Tipio Cymru* ac â'n partneriaid.

## 2. Beth yw tipio anghyfreithlon?

Tipio anghyfreithlon yw'r term cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwastraff sy'n cael ei adael ar dir yn anghyfreithlon, fel y nodir yn Adran 33(1)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[1]. Gall y gwastraff fod yn solet neu'n hylif a gall amrywio o ran maint o fag bin o wastraff i waredu gwastraff adeiladu a dymchwel ar raddfa fawr. Mae tipio anghyfreithlon yn gallu digwydd yn unrhyw le, gan gynnwys ar ymyl ffyrdd, mewn cilfannau neu ar dir preifat. Mae tipio anghyfreithlon yn wahanol i daflu ysbwriel gan ei fod yn golygu symud gwastraff o'r eiddo lle cafodd ei gynhyrchu gyda'r nod bwriadol o'i waredu'n anghyfreithlon.

Mae trosedd cysylltiedig hefyd sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o gerbyd modur, pan fydd yr unigolyn sy'n rheoli'r cerbyd neu sydd mewn sefyllfa i reoli'r cerbyd yn cael ei drin fel rhywun sydd wedi achosi gwaredu'r gwastraff yn fwriadol, boed cyfarwyddiadau wedi cael eu rhoi i wneud hynny ai peidio.

## 3. Pwerau Awdurdodau Rheoleiddio

Mae gan awdurdodau lleol ac *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru* (*Corff Adnoddau Naturiol Cymru* o fis Ebrill 2013 ymlaen) bwerau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon ac i erlyn y rheini sydd wedi torri'r gyfraith. *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru* sy'n gyfrifol am ddelio â gwaredu anghyfreithlon ar raddfa fawr, gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol neu wastraff peryglus. Dim ond os bydd perygl uniongyrchol i'r amgylchedd neu i iechyd pobl y bydd *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru* yn clirio gwastraff. Awdurdodau lleol fydd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau, fel ceir, soffas a gwastraff cartrefi sy'n cael eu gadael. Gall awdurdodau lleol hefyd ymchwilio i ddigwyddiadau ar dir preifat; ond nid oes yn rhaid iddynt glirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon oddi ar dir preifat. Er 2005, mae *Asiantaeth yr*

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents

*Amgylchedd Cymru,* Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cael cytundeb o'r enw'r Protocol Tipio Anghyfreithlon[2], sy'n rhestru'r mathau o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon y bydd awdurdodau lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn delio â nhw.

## 4. Pwerau Dedfrydu

Llysoedd Ynadon fydd yn delio â'r achos erlyn ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon fel rheol; ond mae modd i Lys y Goron ddelio â nhw hefyd (yr achosion mwy difrifol). £50,000 yw'r ddirwy uchaf mae modd i'r Llys Ynadon ei rhoi am drosedd tipio anghyfreithlon a/neu 12 mis o garchar. Nid oes terfyn ar y ddirwy mae modd i Lys yn Goron ei rhoi a/neu 5 mlynedd o garchar. Mae'r llys yn gallu rhoi gorchymyn iawndal i ad-dalu'r costau a gaiff dioddefwyr tipio anghyfreithlon ee costau glanhau. Gall Llys Ynadon orchymyn hyd at £5,000 o iawndal. Mae rhywfaint o waith wedi cael ei wneud yn ddiweddar i wella gwybodaeth Ynadon am droseddau tipio anghyfreithlon a'r cosbau cysylltiedig (gweler adran 9).

**Astudiaeth achos: Ymgyrch Hawk**

Roedd Ymgyrch Hawk yn achos roedd *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru* wedi'i ddwyn yn erbyn dau unigolyn a oedd wedi caniatáu i ddau fasnachwr lleol dipio gwastraff yn anghyfreithlon ar dir yn Abercwmboi. Datblygodd y tipio anghyfreithlon i fod yn enghraifft o waredu ar raddfa fawr a oedd yn golygu cannoedd o dunelli o wastraff. Roedd yr unigolion o dan sylw wedi brawychu pobl leol, ac wedyn roedd ofn ar y bobl leol roi tystiolaeth, a oedd yn golygu ei bod yn anodd cymryd camau gorfodi. Diolch i'r cydweithio rhwng *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru,* yr Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cafodd y ddau droseddwr eu herlyn yn 2012. Cafodd un ddirwy o £4,000 a £1,000 o gostau a chafodd y llall orchymyn cymunedol am 12 mis gyda 100 awr o waith di-dâl a £1,000 o gostau.

**Astudiaeth achos: Gorfodaeth awdurdod lleol**

Roedd swyddogion gorfodi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dwyn achos yn erbyn cludwr gwastraff heb ei gofrestru a oedd yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon ar Ffordd Bwlch rhwng Cwmafan a Chimla, Castell-nedd. Roedd yr unigolyn wedi codi £80 am glirio tŷ mawr gan roi gwybod nad oedd yn bwriadu talu'r ffi tipio ar gyfer gwaredu'r gwastraff yn gyfreithlon. Cafodd yr unigolyn ei erlyn a chafodd ddedfryd o garchar.

[2] http://www.environment-agency.gov.uk/subjects/waste/1029679/1032559/?version=1&lang=_e

## 5. A yw tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru?

Mae tipio anghyfreithlon yn effeithio arnom ni i gyd. Mae'n drosedd ddifrifol sy'n weladwy ac sy'n peryglu pobl a bywyd gwyllt drwy ledaenu afiechydon, llygredd, halogi pridd, a gwneud ardaloedd yn fwy tebygol o ddioddef problemau draenio a llifogydd. Rhaid ymrwymo amser ac arian i ddelio â'r broblem ac mae'n difetha ein mwynhad o drefi a chefn gwlad a gall wneud cymunedau'n hyll ar gyfer datblygiadau masnachol neu breswyl. Mae tipio anghyfreithlon yn difetha ein cymdogaethau lleol ac mae'n gallu effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned leol.

Mae pethau amrywiol yn achosi tipio anghyfreithlon ac mae cymhellion y drwgweithredwyr yn anghyfreithlon hefyd, er bod elw ariannol neu arbedion ariannol yn amlwg yn un o'r prif resymau yn y rhan fwyaf o achosion. Mae diffyg cyfleusterau neu fynediad atynt, diogi ac agwedd y bydd rhywun arall yn clirio'r llanastr hefyd yn chwarae rhan. Mae modd defnyddio llawer o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon fel adnodd: mae angen hybu'r ffordd honno o feddwl. Mae angen deall yn well beth sy'n achosi tipio anghyfreithlon, yn enwedig ar lefel leol, fodd bynnag roedd adroddiad gan Sefydliad Jill Dando[3] a oedd yn trin ac yn trafod pam roedd pobl yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon yn cynnig nifer o atebion ac mae'n fan cychwyn da.

Yn ôl yr ystadegau sydd ar gael ar hyn o bryd, caiff y rhan fwyaf o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ei daflu mewn ardaloedd trefol sy'n dioddef o orboblogi, tlodi a diweithdra ac mewn ardaloedd gwledig anghysbell lle tybir bod y perygl o gael eich dal yn isel.

Mae tipio anghyfreithlon yn tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon, gyda gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn cynnig prisiau rhatach na'r rheini sy'n glynu wrth y gyfraith, ee mae gwaredu pedair tunnell o wastraff yn costio tua £256 mewn treth tirlenwi; mae'r gost hon yn gwneud i'r rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon waredu gwastraff yn anghyfrifol ac yn anghyfreithlon.

Bydd nifer o lefydd lle caiff gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon yn aml yn dioddef o danau bwriadol sydd, ar gyfartaledd, yn costio £2,593[4] fesul galwad i'r Gwasanaeth Tân. Dim ond dau o gostau economaidd a chymdeithasol ehangach tipio anghyfreithlon sy'n cael eu hanghofio yw'r rhain.

"Mae tipio anghyfreithlon yn hollol annerbyniol. Mae'n anghyfreithlon ac mae'n achosi perygl i'n Hymladdwyr Tân ac i'r cyhoedd, mae'n draul ar adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac mae'n difrodi'r amgylchedd a'r tir lle caiff ei losgi. Yr hyn sy'n weddill yw llanastr blêr a pheryglus sy'n beryglus i'r cyhoedd oherwydd deunyddiau sy'n cael eu gadael fel silindrau LPG ac asbestos. Mae modd osgoi hyn drwy fod yn

---

[3] Fly-tipping: Causes, Incentives and Solutions (Jill Dando Institute of Crime Science, Mai 2006)

[4] Adroddiad Cost Economaidd Tân i Gymru 2006 – Tabl 7.2 Costau ymateb a chanlyniadol cyfartalog fesul tân yn 2006 (prisiau 2006)

gyfrifol am ein gwastraff ein hunain a sicrhau ei fod yn cael ei waredu'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol.

**Dewi Jones, Comander Gorsaf, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

## 6. Mesur maint y broblem

*Fly Capture* yw'r gronfa ddata genedlaethol ar-lein o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon a chamau gorfodi; cafodd ei sefydlu yn 2004 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Bydd *Fly Capture* yn cofnodi'r digwyddiadau a'r costau sydd ynghlwm wrth wastraff sy'n cael ei waredu ar dir cyhoeddus ac y mae awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn delio ag ef.

Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data *Fly Capture* ar wefan Stats Cymru.[5]

### *Beth mae ystadegau Fly Capture yn ei ddangos?*

- Mae nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi disgyn 34% er 2007 o 54,841 yn 2006/07 i 36,411 yn 2011/12.

- Mae cost gyffredinol clirio tipio anghyfreithlon yng Nghymru wedi disgyn 28% er 2007. Roedd cyfanswm cost clirio tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn 2011/12 yn £2,100,000. Yn 2006/07 roedd cost clirio tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn £2,900,000. Mae hyn yn ostyngiad o £800,000.

- Yn 2006/07, roedd 1 erlyniad ar gyfer pob 1306 digwyddiad. Yn 2011/12 roedd nifer yr erlyniadau wedi codi i 1 erlyniad ar gyfer pob 344 digwyddiad.

Er bod yr ystadegau hyn yn edrych yn gadarnhaol a bod llawer eisoes wedi cael ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, nid yw *Fly Capture* yn datgelu gwir hyd a lled tipio anghyfreithlon yng Nghymru gan nad yw'n cynnwys tipio anghyfreithlon ar dir preifat. Gall awdurdodau lleol ymchwilio i ddigwyddiadau ar dir preifat ond nid oes yn rhaid iddynt glirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon. Pan fydd tipio anghyfreithlon yn digwydd ar dir preifat, y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am dalu'r costau glanhau a gall y rhain fod yn uchel. Bydd nifer o dirfeddianwyr felly'n dewis peidio â rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y tipio anghyfreithlon am y rheswm hwn. Mae tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn broblem fawr i dirfeddianwyr ac i ffermwyr.

---

5 http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/statswales/;jsessionid=C8B665B04D1312D54F764DBA465AA8F6.www1?skip=1&lang=cy

"Yn ddigon teg mae ffermwyr yn teimlo eu bod yn dioddef yn sgil tipio anghyfreithlon gan ei fod yn golygu colli amser ac arian iddynt. Mae angen i ffermwyr roi gwybod am dipio anghyfreithlon er mwyn i ni gael gweld y darlun go iawn o ba mor ddifrifol yw'r broblem hon i ffermwyr ac i dirfeddianwyr ledled Cymru. Mae arnom angen ateb sy'n cael ei rannu i ysgafnhau'r baich ar dirfeddianwyr preifat ac i'w helpu i ddelio â thipio anghyfreithlon. Os oes yn rhaid iddynt lanhau ar ôl y rheini sy'n dangos amarch at gefn gwlad, dylid cael mecanwaith cefnogi ar waith er mwyn iddynt allu delio â'r broblem gan gostio a tharfu cyn lleied â phosibl.

**Trefor Hughes, Cadeirydd Sir Meirionnydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru**

Roedd Adroddiad y Tasglu Rheoleiddio Ffermio ar gyfer DEFRA, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011[6], yn mynegi pryder ynghylch hyd a lled tipio anghyfreithlon ar dir amaethyddol a'r costau clirio a oedd ynghlwm wrth hynny. Roedd hefyd yn argymell y dylid ailddosbarthu deunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon ar ffermydd fel gwastraff cartrefi a ddylai fod yn gymwys i'w waredu am ddim mewn safleoedd amwynder dinesig.

Mae arnom angen ystyried ymhellach sut y mae lleihau'r perygl o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, er enghraifft drwy weithio gyda mudiadau tirfeddianwyr, fel Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, FUW, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i gynyddu nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon sy'n cael eu cofnodi a rhannu'r arfer gorau ynghylch sut mae lleihau'r perygl o dipio anghyfreithlon. Gall hyn hefyd alw am newid mewn polisi gan ganiatáu i swyddogion gorfodi archwilio'r gwastraff sydd wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon am dystiolaeth ac i sancsiynu defnyddio safle amwynder dinesig i dderbyn y gwastraff.

Dylid nodi hefyd nad yw pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cofnodi eu data *Fly Capture* tir cyhoeddus mewn ffordd gyson. Mae rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod mwy o gysondeb o ran sut caiff data ei fesur a'i gasglu; fodd bynnag ceir cyfle yn awr i adolygu sut rydym yn cofnodi data yng Nghymru, canolbwyntio ein hymdrechion yn well a mapio'r patrymau'n fwy dibynadwy (gweler adran 9 hefyd).

## 7. Gwastraff sy'n achosi problemau

Mae data *Fly Capture* ar gyfer 2011/12 yn dangos bod dros 60% o'r deunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon yn wastraff cartrefi. Yr ail fath mwyaf cyffredin o ddeunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon yw deunyddiau adeiladu a dymchwel ac yna gwastraff gwyrdd, nwyddau gwynion a theiars. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'r un maint â llwyth fan fach. Mae dadansoddi'r data hwn yn rhoi arwydd da o'r gwastraff sy'n achosi problemau ledled Cymru a lle mae angen canolbwyntio adnoddau.

[6] http://www.defra.gov.uk/food-farm/farm-manage/farm-regulation/

Roedd Adroddiad Troseddau Gwastraff 2011-12 Cymru a Lloegr[7] a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos bod mathau tebyg o wastraff yn cael eu tipio'n anghyfreithlon yn y digwyddiadau mwy sy'n cael eu trin gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn ogystal ag mewn digwyddiadau llai sy'n cael eu trin gan awdurdodau lleol.

Ceir cysylltiadau amlwg â'r strategaeth wastraff gyffredinol ar gyfer Cymru – Tuag at Ddyfodol Diwastraff – sy'n disgrifio fframwaith ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff rhwng nawr a 2050. Nod y strategaeth yw newid y ffordd rydym yn delio â gwastraff yng Nghymru gan arwain at fudd enfawr i'r amgylchedd, i'r economi ac i'n lles.

Mae faint o ddeunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon yn un o'r profion litmws ynghylch a ydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r nod hwn a datblygu'r polisïau, y marchnadoedd a'r cyfleusterau gwastraff y mae eu hangen i ddelio â'n gwastraff.  Rhaid ystyried y math o ddeunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon wrth ddatblygu cynlluniau sector sy'n amlinellu'r camau y mae eu hangen i gyflenwi'r Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff[8]. Fel y trafodir yn adran 5, mae nifer o bethau sy'n gwneud i bobl dipio'n anghyfreithlon, ond mae'n wir hefyd bod yr hyn sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn arwydd o sut y mae ein strategaethau gwastraff yn gweithio.

[7] http://www.environment-agency.gov.uk/business/142136.aspx

[8] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/towardszero/?skip=1&lang=cy

“Yn 2007 roedd ein timau Rheoli Gwastraff a Rheoli Llygredd wedi mynd ati ar y cyd i dargedu’r holl fasnachwyr ceir a theiars masnachol yn ardal Casnewydd. Yn gyntaf, roeddem wedi anfon holiaduron at 203 o fusnesau’n gofyn iddynt sut roeddent yn gwaredu eu teiars gwastraff. Ar ôl yr holiaduron cafwyd ymweliadau â safleoedd lle’r oeddem yn sicrhau bod eu gwaith papur mewn trefn. Cymerwyd camau gorfodi yn erbyn nifer o'r garejys hyn.

Cynhaliwyd rhagor o ymweliadau ar y cyd gyda swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. O ganlyniad i’n hymdrechion roedd nifer y teiars a oedd yn cael eu tipio’n anghyfreithlon yng Nghasnewydd wedi disgyn 83%.”

**Christine Thomas, Rheolwr Gorfodaeth a Chymunedau Gwasanaethau Stryd, Cyngor Sir Casnewydd**

### Astudiaeth achos: Problem teiars sy’n cael eu taflu

Gall graddfa problem teiars sy’n cael eu taflu dyfu a cheir ymdrech ar y cyd i fynd i’r afael â’r broblem barhaus hon ar draws pob sefydliad, i gael gwared â bygythiad teiars i gymunedau lleol ac i hybu defnyddio teiars fel adnodd.

Fel rhan o ymgyrch ar draws Cymru, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn ymchwilio i bedwar lle anghyfreithlon ar wahân lle caiff teiars eu taflu yn ardal Casnewydd er mis Chwefror 2012. Roedd gan ddau o’r safleoedd dros 5000 o deiars a chawsant eu clirio gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am £20,000; bydd yn ceisio adennill yr arian hwn drwy erlyniad. Cafodd y teiars eu clirio gan eu bod yn peri risg sylweddol o dân i gymunedau ac i wasanaethau lleol fel yr M4. Roedd y ddau brif safle hwn wedi dechrau fel lle i dipio’n anghyfreithlon gan dyfu i fod yn Safleoedd Gwastraff Anghyfreithlon sy’n destun ymchwiliad gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Roedd y safleoedd eraill yn ymwneud â dwy fferm lle'r oedd y ffermwyr wedi cael eu twyllo i rentu tir i'r unigolyn a oedd wedyn wedi gadael teiars yno ac yna diflannu.

## 8. Beth rydym yn ei wneud am dipio anghyfreithlon?

### *Deddfwriaeth a pholisi’r Llywodraeth*

Roedd cyflwyno Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005[9] yn brawf o safiad cryfach Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar drosedd amgylcheddol tipio anghyfreithlon. Roedd y Ddeddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd yn rhoi rhagor o bwerau i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon ac roedd yn galluogi'r llysoedd i roi cosbau llymach.

[9] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/16/contents

Yn dilyn y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd, roedd y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006[10], yn rhoi manylion sut y byddai polisïau Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r sialensiau amgylcheddol sy'n wynebu Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Roedd y strategaeth yn nodi sut y bydd Cymru yn gweithredu ei dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Cymru, y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol.

Roedd y strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau a geisir er mwyn cael amgylchedd gwell yng Nghymru, gan gynnwys mabwysiadu mesurau priodol i annog pobl i beidio â thipio a gwaredu yn anghyfreithlon. Cafodd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ei atgyfnerthu ymhellach drwy Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru 2007-12, a oedd yn annog awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gydweithio i fynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon ar sail genedlaethol a lleol. Roedd ein Strategaeth Tipio Anghyfreithlon 2007-12 yn rhoi cyllid penodol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'i 50 o sefydliadau partner i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon fel rhan o gynllun Taclo Tipio Cymru. Roedd yn cefnogi rhaglen waith o gamau gweithredu gan gynnwys ymgysylltu â busnesau, addysg, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, mesurau ataliol, defnyddio gwybodaeth, gwyliadwriaeth a chamau gorfodi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

## Grŵp Cenedlaethol Atal Tipio Anghyfreithlon

Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod gweithredol o'r Grŵp Cenedlaethol Atal Tipio Anghyfreithlon, sy'n grŵp ar draws y DU ac sy'n cael ei arwain gan DEFRA ac sy'n cynnwys ystod eang o sefydliadau gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, tirfeddianwyr a busnesau. Mae'r grŵp yn ceisio canfod a rhannu arfer da i atal a mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac mae'n chwilio am atebion posibl ar gyfer gwastraff sydd wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon. Mae'r Grŵp Cenedlaethol Atal Tipio Anghyfreithlon wedi cynhyrchu cyhoeddiadau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon fel canllawiau i dirfeddianwyr a rheolwyr tir.[11]

## Uwchgynhadledd Cymru Lanach

Roedd yr Uwchgynhadledd Cymru Lanach a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009 yn casglu syniadau ynghylch sut y gellid gwella'r amgylchedd lleol i gyflawni Cymru lanach. Mae nifer o'r camau a nodwyd gan bartneriaid yn ystod yr uwchgynhadledd yn cael eu cyflenwi drwy brosiectau a chynlluniau sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru. Dyma oedd y prif awgrymiadau a oedd yn ymwneud â thipio anghyfreithlon:

- sicrhau bod cynlluniau sector gwastraff yn cynnwys tipio anghyfreithlon,

[10] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/envstratforwales/?skip=1&lang=cy
[11] ar gael yn: www.tacklingflytipping.com

- cael gwared ag anghysonderau mewn gorfodi,
- cynyddu'r nifer sy'n gallu defnyddio pwerau gorfodi,
- gwella gwybodaeth ar draws Cymru,
- gweithio gydag Ynadon – gan fod dirwyon am dipio anghyfreithlon yn isel yn gyffredinol,
- hybu a darpariaeth gyson mewn safleoedd Amwynder Dinesig,
- gosod mecanwaith electronig/fagnetig ar droïau archfarchnadoedd i'w hatal rhag cael eu symud oddi ar dir yr archfarchnad ac wedyn eu taflu.

Cyllid grant

Yn ogystal â darparu cyllid i *Taclo Tipio Cymru*, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant er 2006 i grwpiau cymunedol ac i awdurdodau lleol i wella ansawdd amgylcheddau lleol. Cafodd y cynllun Trefi Taclus ei lansio yn 2008 ac, ers ei gyflwyno, rydym wedi dyfarnu dros £16 miliwn i brosiectau ledled Cymru. Mae cyllido awdurdodau lleol, Cadwch Gymru'n Daclus a grwpiau cymunedol i weithredu yn eu hardaloedd lleol wedi arwain at wella nifer o ardaloedd sydd wedi dioddef tipio anghyfreithlon.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid grant blynyddol i Cadwch Gymru'n Daclus i reoli'r rhaglen Eco Ysgolion. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar faterion datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol. Bydd rhai o'r rheini yn ymwneud â lleihau eu hysbwriel a'u gwastraff.

**Astudiaeth achos: Fern Hill – Prosiect Cymunedol**

Mae Cymdeithas Trigolion Fernhill wedi gweithio i wella glan afon sy'n cael ei defnyddio i dipio gwastraff cartrefi'n anghyfreithlon. Roedd y prosiect wedi cyflwyno cais llwyddiannus am gyllid Trefi Taclus i glirio'r gwastraff a oedd wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon a gwella'r mynediad at y man gwyrdd nad oedd modd ei gyrraedd oherwydd gordyfiant a llwybrau a oedd wedi cael eu cynnal yn wael.

Cynhaliwyd arolwg yn yr ardal a gofynnwyd i'r trigolion sut roedden nhw'n gwaredu eu gwastraff ac a oeddent yn wynebu unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Roedd canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod ymwybyddiaeth o wastraff yn broblem a chynlluniwyd Diwrnod Cymunedol Ymwybyddiaeth o Wastraff ynghyd â digwyddiadau glanhau.

Yn ogystal â chlirio'r gwastraff ac annog cerddwyr i ddefnyddio'r ardal, cytunwyd y dylid rhoi defnydd cymunedol i'r tir er mwyn helpu i atal rhagor o dipio anghyfreithlon yn y dyfodol. Gan fod cryn alw am randiroedd cymunedol, byddai'r prosiect yn creu ardal dyfu fawr ei hangen drwy ddefnyddio ardal segur ar yr ystad. Byddai'r prosiect hefyd yn darparu rhaglen hyfforddi i arfogi'r gymuned â'r sgiliau i gynnal yr ardal.

Un o'r prif fanteisio'n i'r gymuned ac i'r ardal leol yw y bydd y prosiect yn creu adnodd mawr ei angen i drigolion ac i'r ysgol leol, ond bydd hefyd yn golygu mabwysiadu ardal a oedd yn cael ei defnyddio'n aml ar gyfer tipio anghyfreithlon.

Cyfeiriad polisi ar gyfer y dyfodol

Bydd angen i'r gwaith sy'n mynd rhagddo nawr ar dipio anghyfreithlon a'r gwaith a wneir ar hyn yn y dyfodol gyd-fynd â nodau polisi presennol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio amcanion tipio anghyfreithlon yng ngwaith Llywodraeth Cymru i weithredu ar sail lle, gan ddefnyddio'r holl adnoddau presennol i weithio mewn ffordd sy'n fwy integredig, creu synnwyr o falchder ymysg pobl am y lle maent yn byw, ynghyd â gwell diogelwch cymunedol, iechyd gwell, a manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd cymunedau'n cael eu grymuso i gael mynediad gwell at wasanaethau a llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Maes o law bydd hyn yn troi yn synnwyr o hapusrwydd a lles i'r trigolion a'u teuluoedd, wedi'i gefnogi gan werthfawrogiad gwell o lefydd diogel mae modd byw ynddynt.

Mae'n debyg y bydd y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) i sicrhau bod eu prosesau penderfynu strategol yn ystyried lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a thymor hir. Bydd hyn hefyd yn bwysig wrth ystyried camau i leihau tipio anghyfreithlon yn y dyfodol.

Mae'r papur ymgynghori presennol 'Cynnal Cymru Fyw' yn rhoi dull gweithredu arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Prif ergyd y dull gweithredu hwn yw bod manteision i bobl ac i fusnesau'n cael eu gwireddu ochr yn ochr â manteision amgylcheddol. Bydd yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r "dull ecosystem" sy'n ffordd o edrych ar bopeth mae'r amgylchedd yn ei wneud i ni ac adlewyrchu hynny yn ein penderfyniadau. Mae mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn enghraifft amlwg o hyn gan ein bod yn gwybod am y difrod gall ei achosi ac nid dim ond o safbwynt amgylcheddol, ond hefyd i gysylltiad ffisegol pobl â lle, i'w balchder yn eu cymuned, ac i'r argraff a roddir i fusnesau ac i ymwelwyr, sy'n gallu cael canlyniadau cymdeithasol ac economaidd negyddol.

## 9. Taclo Tipio Cymru

*Taclo Tipio Cymru* yw'r prif gerbyd ar gyfer cyflenwi yn ôl Strategaeth Tipio Anghyfreithlon yng Nghymru Llywodraeth Cymru (2007-12). Mae'n bartneriaeth a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio lleihau tipio anghyfreithlon. Caiff ei gydlynu gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ond

mae ganddo hunaniaeth unigryw a ffordd unigryw o weithio sy’n caniatáu i’r sefydliadau partner weithio’n well gyda’i gilydd, rhannu adnoddau a chyflawni canlyniadau.

## Sut mae’n gweithio?

Dull gweithredu sy’n seiliedig ar ymchwil ac ar dystiolaeth

Mae *Tipio Anghyfreithlon Cymru* a’i Ddogfen Partneriaeth 2007-12[12] wedi’u creu ar ganfyddiadau ymchwil o’r Jill Dando Institure of Crime Science, Coleg Prifysgol Llundain, 2006. Mae’r Sefydliad yn argymell cyfres o fesurau i atal tipio anghyfreithlon a sicrhau bod y rheini sy’n tipio’n anghyfreithlon yn cael eu herlyn yn llwyddiannus. Mae’r ymchwil yn cydnabod nad oes atebion hawdd a bod angen newid ymddygiad drwy addysg, gorfodaeth a chynnwys cymunedau. Mae’n cydnabod hefyd nad yw tipio anghyfreithlon wedi’i gyfyngu gan ffiniau sefydliadol na daearyddol ac nad oes modd i un sefydliad ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r broblem. Mae sylfaen mor gryf o ymchwil a thystiolaeth yn egwyddor arweiniol ar gyfer y bartneriaeth ac mae *Tipio Anghyfreithlon Cymru* wedi meithrin cysylltiadau cryf gyda sefydliadau academaidd fel Ysgol Fusnes ac Economeg Caerdydd ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd.

Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau

Mae cyfathrebu effeithiol ymysg partneriaid yn allweddol ar gyfer llwyddiant y cynllun. Caiff tri fforwm tipio anghyfreithlon eu cynnal ledled Cymru i hwyluso gwaith partneriaeth a rhannu arfer da rhwng ystod eang o sefydliadau a phartïon sydd â diddordeb. Mae cyfarfodydd y fforymau’n sicrhau cysondeb ar draws Cymru a, gyda'i gilydd, mae'n haws i aelodau ddylanwadu ar gamau gweithredu partneriaid a llunwyr polisïau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae eu hangen.

Sut caiff Taclo Tipio Cymru ei gyllido?

Drwy weithio mewn partneriaeth, mae’r cynllun yn gallu sicrhau cyllid na fyddai ar gael i un partner sy’n gweithredu ar ei ben ei hun. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cyllido pedwar o gydlynwyr yng Nghymru i arwain y cynllun a bydd ceisiadau’n cael eu cyflwyno i gangen Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cymru i weithredu rhaglen waith y bartneriaeth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd arian Ewropeaidd hefyd drwy Raglen Adfywio Parc Rhanbarthol y Cymoedd ERDF. Mae hyn wedi caniatáu ymgyrch glanhau dwy flynedd o hyd wedi’i thargedu i atal ac i symud y malltod a’r blerwch amgylcheddol gyda golwg ar gynyddu nifer yr ymwelwyr yn ardal Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

**Dyma enghreifftiau o’r hyn bydd partneriaeth *Taclo Tipio Cymru* yn ei gyflawni drwy fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon o bob ochr drwy addysg, gweithredu cymunedol a gorfodaeth:**

---
[12] Mae’r Ddogfen Bartneriaeth 2007-2012 ar gael ar www.taclotipiocymru.org

Addysg

Mae'r bartneriaeth yn rhannu un logo ac un llais i sicrhau bod un neges a darpariaeth gyson yn cael ei rhannu yng nghyfryngau Cymru. Y nod yw hybu'r newid sydd ei angen mewn ymddygiad i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a dangos i'r cyhoedd na chaiff tipio anghyfreithlon ei oddef a'n bod yn mynd i'r afael ag ef o bob ochr.

Roedd *Taclo Tipio Cymru* wedi trefnu ymgyrch proffil uchel yn y cyfryngau ym mis Ionawr 2010 i dynnu sylw at hyd a lled y broblem a rhoi gwybod i gartrefi ac i fusnesau am eu dyletswydd gyfreithlon i waredu eu gwastraff yn gyfrifol. Cafodd y lansiad lawer o sylw yn y cyfyngau gan gynnwys teledu, radio a'r wasg ac mae wedi bod yn fan cychwyn ar gyfer ymgyrchoedd dilynol.

Yn fwyfwy bydd y cyhoedd yn chwilio am wybodaeth ar-lein. Mae gwefan bwrpasol *Taclo Tipio Cymru*[13] yn galluogi busnesau, cartrefi a thirfeddianwyr i gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i leihau'r tebygolrwydd o dipio anghyfreithlon ynghyd â gwybodaeth am sut y mae rhoi gwybod am ddigwyddiad. Mae'n rhoi'r cyfle i gofrestru ar gyfer glanhau gwastraff yn eich cymuned leol ac mae'n ardal i bartneriaid rannu gwybodaeth ac arfer da hefyd.

**Astudiaeth achos: Addysgu crefftwyr y dyfodol**

Deunyddiau adeiladu a dymchwel yw'r deunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon amlaf yng Nghymru. Mae'n bwysig bod crefftwyr y dyfodol yn gwybod sut mae delio â'r gwastraff maent yn ei gynhyrchu. Mae colegau adeiladu felly wedi cael eu targedu yn y frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon. Ymysg y gynulleidfa darged mae 720 o fyfyrwyr yng Ngholeg Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr sydd bellach yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dyletswyddau gofal.

Gweithredu Cymunedol

Mae'r bartneriaeth yn cefnogi gweithredu cymunedol drwy ei hymgyrchoedd Canolbwyntio'n Llwyr. Nod ymgyrchoedd o'r fath yw canolbwyntio ar un ardal ddaearyddol ac ymrwymo llawer iawn o ymdrech ac adnoddau partneriaeth i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn yr ardal honno. Mae ymgysylltiad cymunedol wyneb yn wyneb yn cael ei gyfuno â thaflenni drwy'r post, cyhoeddusrwydd lleol yn ogystal ag ymgyrchoedd gorfodi. Daw busnesau a chartrefi yn ymwybodol o'u dyletswyddau gofal yng nghyd-destun gweithredu partneriaeth gweledol ac effeithiol. Ni fydd ganddynt wedyn ddim amheuaeth ynghylch pa gyfleusterau sydd ar gael ar gyfer gwaredu'n gyfreithlon a

[13] www.taclotipiocymru.org

byddant yn cael eu helpu mewn unrhyw ymgais i lanhau ac i wella eu hamgylchedd lleol. Nod Canolbwyntio'n Llwyr yw meithrin synnwyr bod cymdeithas gyfan ardal benodol yn dod ynghyd i lanhau, i leihau, i ailddefnyddio ac i ailgylchu ac i ymfalchïo yn ein cymunedau.

**Astudiaeth achos: Canolbwyntio'n Llwyr ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd**

Mae partneriaid yn gweithio gyda chymunedau lleol i nodi ardaloedd blaenoriaeth sy'n dioddef o dipio anghyfreithlon. Bydd data a gesglir o unedau GPS hefyd yn cael ei ddadansoddi i ddod o hyd i ardaloedd sy'n dioddef tipio anghyfreithlon yn aml. Bydd partneriaid gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Cymunedau yn Gyntaf, Cadwch Gymru'n Daclus a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cymryd rhan o gam cynnar er mwyn dod o hyd i broblemau tipio anghyfreithlon yn yr ardal; unrhyw brosiectau blaenorol sydd wedi cael eu gwneud a'r gwersi a ddysgwyd. Defnyddir dull aml-asiantaeth i edrych ar atebion posibl a fydd yn diwallu amcanion pob partner. Cynhelir cyfarfodydd wedyn i gynllunio cynlluniau mae modd eu cyflenwi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon: cynlluniau sy'n briodol, yn gynaliadwy ac mae modd eu cyflawni. Bydd cynlluniau gweithredu sy'n rhoi manylion digwyddiadau, partneriaid, adnoddau ac ati yn cael eu paratoi a'u dosbarthu i bawb dan sylw.

**Digwyddiadau Canolbwyntio'n Llwyr:**

- Archwiliadau ar hap ar gyfer cludwyr gwastraff
- Sesiwn ymgysylltiad bore "Fan Brechdanau" ger gwerthwr nwyddau adeiladu ar gyfer adeiladwyr a chrefftau cysylltiedig
- Arolygon gwastraff o fusnesau a thrigolion
- Hysbysebu ar radio lleol
- Sgipiau a glanhau cymunedol
- Sioeau teithiol mewn archfarchnadoedd a siopau mawr DIY
- Glanhau afonydd, camlesi a llwybrau beicio
- Taflenni drwy'r post i fusnesau
- Sgipiau gwastraff mawr ychwanegol
- Erthyglau yn y wasg leol
- Ymgyrchoedd gorfodi a gwyliadwriaeth

<u>Gorfodaeth ddeallus</u>

Mae defnyddio dull deallus yn bwysig yn y frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon ac mae'r bartneriaeth wedi mabwysiadu nifer o ddulliau i wella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei rhannu a'i dadansoddi yng Nghymru.

Fel rhan o brosiect Barc Rhanbarthol y Cymoedd, cafodd prosiect System Leoli Byd-eang (GPS) ei dreialu i fapio gwir faint tipio anghyfreithlon yn y rhanbarth. Bydd y system hon yn hynod werthfawr yn y dull gweithredu deallus i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Dyma'r prosiect mapio cyntaf yn y DU sy'n edrych ar bob digwyddiad tipio anghyfreithlon, gan roi Cymru ar y blaen o ran gorfodaeth fodern.  Mae rhannu gwybodaeth hefyd yn bwysig yn y frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon. Mae rhoi mynediad wedi'i ddiogelu i awdurdodau lleol i'r gronfa ddata Gwybodaeth Memex (sy'n cael ei defnyddio gan Safonau Masnach) hefyd yn cael ei dreialu drwy'r prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Mae offer gwyliadwriaeth arbenigol yn cael ei rannu ymysg partneriaid ac mae'n helpu i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i erlyn y rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon. Mae arwyddion 'Dim Tipio Anghyfreithlon' wedi cael eu rhoi i bob awdurdod lleol yng Nghymru, unwaith eto gan sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu yn y frwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon.

**Astudiaeth achos: Mae’n anodd dal y rheini sy’n tipio’n anghyfreithlon.**

Mae sesiynau hyfforddi wedi cael eu darparu i swyddogion gorfodaeth awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gynyddu cysondeb gallu a sgiliau gorfodi ledled Cymru.

Mae dros 100 o ymarferwyr gorfodi wedi elwa o’r cyrsiau sydd wedi edrych ar:

- Gwyliadwriaeth,
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000,
- Casglu Tystiolaeth Ffotograffig,
- Deddfwriaeth a pharatoi datganiadau tystion.

**Astudiaeth Achos: Gweithio gydag ynadon.**

Mae nifer o bartneriaid yn codi’r problemau maent wedi’u cael wrth geisio sicrhau erlyniadau llwyddiannus a chanlyniadau gorfodaeth wrth fynd ag achosion tipio anghyfreithlon i’r Llys Ynadon. Yn gyffredinol roedd teimlad nad oedd ynadon weithiau yn meddu ar ddealltwriaeth o effaith lawn tipio anghyfreithlon a’r offer a oedd ar gael iddynt wrth ddedfrydu. Gan ystyried cyngor gan ynadon a chyfreithwyr yn gwasanaethu awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, dosbarthodd y bartneriaeth daflen ffeithiau i ynadon ar ddelio ag achosion tipio anghyfreithlon ar y cyd â’r Gymdeithas Ynadon a Chymdeithas Clercod yr Ynadon. Gan gydnabod mantais y dull gweithredu hwn ysgrifennodd y Gweinidog Amgylchedd bryd hynny at yr Arglwydd Leveson yn gofyn i’r Cyngor Dedfrydu ystyried ategu at ganllawiau dedfrydu’r Llys Ynadon gyda chanllawiau penodol yn ymwneud â throseddau fel tipio anghyfreithlon. Mae’r Cyngor Dedfrydu’n adolygu’r canllawiau ar hyn o bryd er mwyn cynnwys troseddau amgylcheddol, fel tipio anghyfreithlon.

## 10. Beth fu'r anawsterau a’r gwersi a ddysgwyd o’r rhaglenni gwaith a ddarparwyd drwy’r Strategaeth Tipio Anghyfreithlon?

Mae canlyniadau wedi cael eu cyflawni drwy Strategaeth Tipio Anghyfreithlon 2007-12 a gwaith *Taclo Tipio Cymru* ond mae modd gwneud rhagor. Dyma’r prif sialensiau sydd yn dal o’n blaenau.

<u>Gwaith Partneriaeth</u>

- Ystyried lefel ymrwymiad strategol sefydliadau allweddol i fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon, sy’n amrywio ledled Cymru. Mae’n bwysig i gymunedau ac asiantaethau gorfodi gydweithio gydag awdurdodau i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

- Mewn hinsawdd economaidd anodd mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen cydweithio ac adeiladu ar ddull partneriaeth er mwyn sicrhau na chaiff ymdrechion eu dyblygu a bod adnoddau'n cael eu targedu yn ôl yr angen.

- Mae angen gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau i siapio eu hardal leol ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn falch o'u hardal a'u bod hefyd yn deall y manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd sydd eu hangen.

<u>Deall graddfa a natur y broblem</u>

Mae gennym gryn ffordd i fynd o hyd i ddeall hyd a lled y broblem yng Nghymru ac mae arnom angen adeiladu ar y dull sy'n seiliedig ar ymchwil ac ar dystiolaeth.

- Mae Fly Capture wedi'i gyfyngu i gofnodi digwyddiadau ar dir cyhoeddus. Mae angen i ni ddeall graddfa'r broblem ar gyfer tirfeddianwyr preifat ac i sefydliadau fel Comisiwn Coedwigaeth Cymru, y Parciau Cenedlaethol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

- Mae arnom angen gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach tipio anghyfreithlon ar gymuned.

- Mae'n bwysig hefyd cael gwell dealltwriaeth o'r newidiadau mewn ymddygiad y mae eu hangen i stopio tipio anghyfreithlon a sut gellir lleihau "adnoddau cudd" y nwyddau sy'n cael eu taflu drwy ailgylchu cadarnhaol.

- Bydd y ddealltwriaeth ehangach hon yn cefnogi'r dull gweithredu deallus y mae ei angen i ddal y rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon; deall y bylchau mewn gwasanaethau gwaredu gwastraff sy'n arwain at dipio anghyfreithlon; helpu i ddylanwadu ar yr atebion a chefnogi cymunedau a thirfeddianwyr i fynd i'r afael â'r broblem.

<u>Addysg</u>

- Mae nifer o gartrefi a busnesau heb fod yn ymwybodol am eu dyletswydd gofal a'u cyfrifoldeb i waredu gwastraff mewn ffordd ddiogel a chyfreithlon. Mewn arolwg diweddar ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, roedd 42% yn dweud nad oeddent yn gwybod bod cyfrifoldeb arnynt i gadarnhau ble'r oedd eu gwastraff yn mynd na bod angen i bob cludydd gwastraff gael ei gofrestru.

- Mae angen cefnogi'r busnesau cyfreithlon hynny sy'n cofrestru i fod yn gludwyr gwastraff a'u hyrwyddo'n well.

- Mae'n bwysig cael gwared â'r anghysondeb ymysg cyrff gorfodi ledled Cymru yn y ffordd maent yn gweithredu'r Rheoliadau Dyletswydd Gofal.

- Mae arnom angen cefnogi'r agenda 'lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu' i helpu pobl i feddwl am wastraff fel adnodd.

Darpariaeth Gwastraff

Mae'r cyhoedd yn nodi'n aml bod diffyg darpariaeth gwastraff digonol a fforddiadwy yn rheswm dros dipio anghyfreithlon.

- Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu'r agenda darpariaeth gwastraff a'n bod yn canolbwyntio ar wastraff sy'n peri problemau fel gwastraff cartrefi, adeiladu, dymchwel a theiars.
- Rhaid i ni sicrhau bod modd adnabod gwastraff a allai achosi problemau yn gynnar os bydd newid yn y ddeddfwriaeth.
- Rhaid i ni weithio i fynd i'r afael â diffyg cysondeb mewn darparu amwynderau gwastraff ledled Cymru, mewn ymdrech i'w gwneud yn llai dryslyd i'r rheini sy'n ceisio gwaredu eu gwastraff yn gyfreithlon.

Gorfodaeth ddeallus

Mae nifer yr erlyniadau yn erbyn pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn isel yng Nghymru.  Mae'n anodd dal y troseddwyr hyn a'u dwyn gerbron cyfiawnder. Dyma bethau mae modd eu gwella:

- Adeiladu gallu gorfodi cyson ledled Cymru er mwyn cael cysondeb ymysg cyrff gorfodi o ran dehongliad deddfwriaeth a chamau gorfodi.
- Rhannu gwybodaeth – nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gronfa ddata gwybodaeth ond mae'r adborth yn awgrymu y byddent yn hoffi un.
- Gweithio i roi gwybodaeth i Ynadon er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael eu cosbi'n briodol.

## 11. Beth ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw cynlluniau tipio anghyfreithlon unigol yn gweithio. Felly mae arnom angen parhau i weithio gyda *Taclo Tipio Cymru*, ei holl bartneriaid a chymunedau i edrych pa gamau gellir eu cymryd i ymdrin â thipio anghyfreithlon yn fwy effeithiol.

Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd, a gyda 22 awdurdod lleol yn unig, yr ystod eang o bartneriaid sydd eisoes yn cymryd rhan a'r cysylltiadau agos rhwng cymunedau, ymarferwyr a llunwyr polisïau, mae gennym gyfle yng Nghymru i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Un o’r meysydd allweddol a nodwyd yn y ddogfen hon yw’r angen i adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni; datblygu *Taclo Tipio Cymru* yn bartneriaeth sy'n wirioneddol strategol a chydweithredol, gyda gweledigaeth, canlyniadau a threfn lywodraethu a rennir a fydd yn gallu cyflawni hyd yn oed rhagor. Fel rhan o hyn mae Llywodraeth Cymru a Taclo Tipio Cymru wedi cynhyrchu’r canlyniadau lefel uchel canlynol a fydd yn rhoi’r ffocws ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon ledled Cymru.

## CANLYNIADAU AR GYFER Y BARTNERIAETH

1. Pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy’n rhan annatod o’u strategaethau a’u gwaith o ddydd i ddydd.

   Er enghraifft:
   - Mae mynd i’r afael â'r hyn sy'n achosi tipio anghyfreithlon a gweithredu i'w atal yn 'fusnes arferol' ee mae pob swyddog tân yn gwybod am beryglon tipio anghyfreithlon ac mae ganddynt daflenni gwybodaeth i’w rhoi i aelodau'r cyhoedd.
   - Ceir mecanweithiau hawdd eu deall ar gyfer cydweithio i gyflawni canlyniadau a rennir ond peidio â dyblygu gwaith ar dipio anghyfreithlon.
   - Mae rhanddeiliaid yn wirioneddol ddeall graddfa’r broblem ac maent wedi’u harfogi â gwybodaeth gynhwysfawr sy’n cael ei diweddaru’n rheolaidd ar effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tipio anghyfreithlon ac ar arfer da i’w leihau.
   - Bydd sefydliadau yn ystyried y goblygiadau ar gyfer tipio anghyfreithlon ym mhob strategaeth a dogfen bolisi.

2. Dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas

   Er enghraifft:
   - Mae pobl yn deall ac yn derbyn eu bod yn gyfrifol am eu gwastraff.
   - Mae pobl yn deall effaith amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd tipio anghyfreithlon.
   - Mae pobl yn gwybod ble i droi am arweiniad i fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon yn eu cymunedau ac i adrodd am achosion.
   - Ceir lefel dda o addysg am faterion sy’n ymwneud â thipio anghyfreithlon.

- Ceir dealltwriaeth well ynghylch pam mae grwpiau gwahanol yn tipio'n anghyfreithlon, beth fyddai'n galluogi newid cadarnhaol mewn ymddygiad a beth fyddai'n hybu dealltwriaeth a pherchnogaeth well.

3. Haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol

   Er enghraifft:
   - Mae'n hawdd i bawb ddefnyddio cyfleusterau i ddelio â gwastraff ledled Cymru.
   - Mae pawb yng Nghymru yn gwybod ble i droi i gael cyngor a gwybodaeth am sut mae gwaredu gwastraff.
   - Caiff busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff yn gyfreithlon eu cefnogi.
   - Mae gwastraff yn cael ei ddefnyddio fel adnodd pan fydd hynny'n bosibl – targedau diwastraff.

4. Unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

   Er enghraifft
   - Mae gorfodaeth ddeallus a cheir cydweithrediad effeithiol rhwng Adnoddau Naturiol Cymru, yr Heddlu ac awdurdodau lleol.
   - Mae'n hawdd i aelodau'r cyhoedd ac i sefydliadau roi gwybod am ddigwyddiadau a chyfrannu data perthnasol.
   - Mae difrifoldeb y dirwyon a'r cosbau yn atal pobl rhag gwneud hynny.
   - Mae barnwyr ac ynadon yn rhoi'r cosbau llawn oherwydd eu bod yn deall effeithiau tipio anghyfreithlon a'r cosbau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn mae arnom angen cydweithio â'n holl bartneriaid yng Nghymru i ddatblygu camau gweithredu manwl. Bydd y camau gweithredu manwl hyn yn deillio o drafodaethau gyda phartneriaid unigol, o ganlyniadau gweithdai'r gynhadledd 'Cymru Ddi-dipio' a gynhelir ar 26 Tachwedd 2012 ac o weithdai pellach gyda sefydliadau partner a chymunedau. Bydd y camau gweithredu manwl a'r canlyniadau uchod yn sylfaen ar gyfer strategaeth tipio anghyfreithlon newydd ar gyfer Cymru.